# Y CABINET DYDD MAWRTH, 6 HYDREF 2015

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwr: Dyfed Wyn Edwards, Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid) a Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15FED O FEDI 2015**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Medi 2015.

**6. LLYS YNADON DOLGELLAU - YMATEB I'R YMGYNGHORIAD LLYSOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Argymell bod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cynnig o fewn y ddogfen ymgynghorol i gau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau, gan nodi hefyd pe

byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw presenoldeb yn Nolgellau efallai y byddai modd cydweithio i sicrhau lleoliad priodol ar gyfer darpariaeth Gwasanaeth Cyfiawnder yn ardal Dolgellau.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod, gan ychwanegu:

- eitem i drafod y trefniadau cyswllt rhwng y Cabinet a Phwyllgorau Craffu.
- eitem i drafod y cyswllt rhwng cynrychiolwyr y Cyngor ar Gyrff Allanol a'r Cabinet

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a death i ben am 1.30 y.h.

**CADEIRYDD**